# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymuned Bryngwran

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymuned Bryngwran yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n sicrhau bod lles, gofal ac hapusrwydd pob disgybl yn rhan annatod o ethos Cymreig yr ysgol.

Mae balchder cynhenid disgyblion tuag at eu hysgol yn gwbl amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu yn elfen nodedig o gymuned yr ysgol. Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r modd mae staff yn meithrin ac yn cynnal medrau personol a chymdeithasol disgyblion trwy amryfal drefniadau amserol a rhaglenni cefnogi blaengar. Mae perthnasoedd gwaith cefnogol rhwng disgyblion a staff yn sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod dda o fedrau o'u mannau cychwyn, gan wneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen a digidol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r profiadau creadigol ar gyfer meithrin medrau artistig a mynegiannol disgyblion yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth.

Darperir cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys sy'n adeiladu'n gydlynus ar ddealltwriaeth y disgyblion o'u medrau yn effeithiol. Mae athrawon yn fodelau iaith dylanwadol ac maent yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu ystyrlon a chyfoethog sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i awgrymu syniadau fel rhan o'r gweithgareddau dysgu. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n herio'r disgyblion mwyaf abl yn ddigon cyson.

Mae gan staff adnabyddiaeth dda o'r holl ddisgyblion ac maent yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn bwrpasol. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau holi yn effeithiol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion yn ogystal â llywio cyfeiriad eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu adborth digon effeithiol i ddisgyblion i'w cefnogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a staff yn briodol. Mae gwerthusiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae gan staff berthynas gynhyrchiol â'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos, sy'n hwyluso trefniadau pontio effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff yn meithrin partneriaethau rhagweithiol â'r rhieni a'r gymuned leol sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr ethos croesawgar a theuluol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion mwy abl yn gyson

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025